LEWIS, THOMAS (1837 - 1892), athro gyda'r Annibynwyr

Enw: Thomas Lewis
Dyddiad geni: 1837
Dyddiad marw: 1892
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd yn 1837 ym Mydroilyn, Sir Aberteifi. Addysgwyd ef yn Ystrad Meurig. Bu'n cadw ysgol am gyfnod yng Nghrugybar. Yn 1862 aeth i Goleg Caerfyrddin; yn 1864 cymerth ofal ysgol Parc-y-felfet, ac wedi tair blynedd yno aeth i Manchester College ac enillodd radd B.A. gydag anrhydedd yn y dosbarth blaenaf. Yna aeth i Gaerdydd i gadw ysgol uwchradd, a bu'n rithriadol lwyddiannus yn y gwaith.

Yn 1874 penodwyd ef yn athro cynorthwyol yng Ngholeg y Bala yn ystod absenoldeb y prifathro M. D. Jones ar daith yn casglu at y coleg yn America. Ym mrwydr y cyfansoddiadau - gweler M. D. Jones - gyda phlaid y cyfansoddiad newydd yr ymunodd, eithr, gan mor dangnefeddus ei natur, ni chymerodd ran amlwg yn yr helynt. Ef a benodwyd yn bennaeth Coleg y Cyfansoddiad Newydd a sefydlwyd i ddechrau ym Mhlasyndre, Bala, ac a symudwyd yn ddiweddarach i Fangor. Nid hir y bu cyn i'w iechyd dorri i lawr, ac aeth ar fordaith, ond bu farw ym Mhort Said 11 Chwefror 1892, ac yno y claddwyd ef.

Bonheddwr wrth natur, ysgolhaig gwych, ac anffawd fawr ei fywyd oedd i un o'i anianawd ef fod â dim cyswllt â chythrwfl fel ag a wnaed yn y Bala; diau i hynny amharu ar ei iechyd a byrhau ei ddyddiau.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen , (1890 - 1973)

Ffynonellau

E. Pan Jones, *Oriel Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin: yn cynwys hanes yr holl fyfyrwyr fu yn y coleg o 1796 hyd 1899*(Merthyr Tydfil 1909), 106

G. D. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (1939), 179-80

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734498

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Owen, R. G., (1953). LEWIS, THOMAS (1837 - 1892), athro gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LEWI-TMS-1837

Copïo'r Cliptwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government